



SSAGO

Student Scout and Guide Organisation

Gwybodaeth i Fyfyrrwyr

Beth yw MSAGM?

Mae Mudiad Sgowtiaid a Geidiau'r Myfyrwyr (MSAGM) yn galluogi unrhyw fyfyrwr i barhau neu i gychwyn ar eu taith fel Sgowtiaid neu Geidiau yn y Coleg neu'r Brifysgol. Caiff unrhyw un sydd mewn Sefydliad Addysg Uwch ymuno ag MSAGM. Nid oes angen bod yn aelod o Gymdeithasau'r Sgowtiaid a'r Geidiaid i ymuno ag MSAGM a gallwch ymuno â chlwb lleol neu ddod yn aelod annibynnol.



Mae MSAGM yn dod ynghyd yn genedlaethol mewn gwersylloedd, dawnns ffurfiol, teithiau rhyngwladol, ac mae hefyd yn cynnig cyfleoedd lu gyda chlybiau lleol a rhanbarthol.

Clybiau MSAGM

Mae clybiau MSAGM mewn prifysgolion ledled y Deyrnas Unedig. Maent yn rhoi anogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyllog, gwersylloedd a digwyddiadau cenedlaethol. Gall aelodaeth o glwb MSAGM hefyd eich helpu chi feithrin cysylltiadau â Sgowtiaid a Geidiaid lleol yn eich ardal newydd sy'n wych os ydych am wirfoddoli.

Mae cyfarfod MSAGM yn cael ei gynnal bron bob nos ledled y Deyrnas Unedig. Bydd gan bob clwb MSAGM lleol raglen neilltuol sy'n llawn o bethau i'w gwneud, gan gynnwys dringo a phentyrru cewyll, heiciau a thanau gwersyll, addurno cacennau a nosweithiau'n chwarae gemau.

Gall aelodaeth o Glwb hefyd eich helpu chi drwy'r troeon amrywiol sy'n rhan o fywyd prifysgol. Os byddwch yn troi ymhlith pobl o'r un anian â chi yr ydych yn rhannu'r un diddordebau â nhw mi allech chi wneud ffrindiau am oes!

Website: www.ssago.org



Student Scout and Guide Organisation (SSAGO)



@SSAGO_UK



SSAGO at Birmingham Chocolate Rally, November 2019

Rali MSAGM

Gwersyll cenedlaethol yw'r Rali, a gynhelir unwaith bob tymor ac mae grwpiau MSAGM o bob cwr o'r Deyrnas Unedig yn cyfarfod i ymuno mewn gweithgareddau, mwynhau anturiaethau a gwneud ffrindiau newydd o bob rhan o'r wlad. Gallant amrywio mewn maint o tua 100 hyd at dros 300 o bobl ac maent yn digwydd dair gwaith y flwyddyn, ym mis Tachwedd, Chwefror, a Mehefin. Cânt eu cynnal gan glwb gwahanol bob tro sy'n dewis thema sydd fel arfer yn cael ei chynnwys yn y gweithgareddau.



Mae'r rali bob amser yn cynnwys gweithgareddau fel teithiau cerdded neu heiciau, gweithgareddau ar y safle, ymweliadau ag atyniadau cyfagos neu ddim ond prynhawn i ffwrdd i grwydro.

Dawns MSAGM

Yn ogystal â'r tair rali, bob blwyddyn bydd un clwb MSAGM yn cynnal dawns i aelodau MSAGM, sy'n cynnwys pryd ffurfiol, dawnsio a chyfle i weld aelodau MSAGM heb y mwd a'r dillad gwersylla! Fel arfer bydd y dawnsfeydd yn themâu, a bydd llety ar gael nid nepell o'r fan, sy'n amrywio o westai i gytiau sgowntiaid gan ddibynnu ar eich cyllideb. Mae rhaglen brysur gyda'r nos sy'n gyfle i bawb gwrdd â ffrindiau newydd, gweld hen ffrindiau, a mwynhau noson wych y tu allan i'r gwersyll.

Rhagor o Wybodaeth

I ddarganfod mwy amdonom ni, yr hyn rydym yn ei wneud a ble mae ein clybiau, ewch i'r wefan: www.ssago.org (ddim ar gael yn Gymraeg)

Fel arall e-bostiwch y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol i gael rhagor o wybodaeth ar: exec@ssago.org neu ar y cyfryngau cymdeithasol.